

Eli Sumner
Technegydd Modurol
Automotive Technician



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Sut alla i ennill
arian tra 'mod i'n
dysgu a datblygu
fy sgiliau?
Yr ateb yw
Prentisiaethau.

How can I earn
while I learn
and develop
my skills?
The answer is
Apprenticeships.

Saima Tabassum
Cynorthwy-ydd Telathrebu
Telecommunications Assistant



Deg rheswm dros ystyried prentisiaeth

Os ydych chi'n awyddus i ffynnu yn y gweithle, Prentisiaeth yw'r ateb. Mae'n golygu eich bod yn cael hyfforddiant a swydd. Mae bod yn brentis yn golygu y gallwch chi ennill cymwysterau cydnabyddedig, dysgu sgiliau hanfodol ac ennill cyflog. Mae tri math o Brentisiaethau; Prentisiaeth Sylfaen, Prentisiaeth a Phrentisiaeth Uwch, am fod swyddi gwahanol yn galw am lefelau gwahanol o gymwysterau. Felly, beth bynnag yw lefel eich sgiliau, mae modd eu gwella trwy Brentisiaeth.

Ten reasons to consider an Apprenticeship

If you're looking to thrive in the workplace the answer is Apprenticeships. Being an apprentice means that you can gain recognised qualifications, essential skills and earn a wage. There are three types of Apprenticeships; Foundation Apprenticeship, Apprenticeship and Higher Apprenticeship, that's because different jobs need different levels of qualifications. So no matter what level your skills are at, they can be improved through an Apprenticeship.

1 Mynnwch fod ar y blaen yn y maes lle'r hoffech chi weithio.

Gyda Phrentisiaeth, gallwch chi hyfforddi mewn maes lle'r hoffech chi weithio. Fyddwch chi ddim yn cael eich gwrthod am eich bod yn ddibrofiad; yn hytrach, gallwch ddatblygu eich gyrfa o'r diwrnod cyntaf.

2 Ennill cymwysterau. Yn ogystal â phrofiad, byddwch chi'n ennill cymwysterau cydnabyddedig sy'n cyfateb yn union i anghenion eich cyflogwr. Bydd y cymwysterau'n fanteisiol i'ch gyrfa yn yr hirdymor a'r byr dymor.

3 Ennill cyflog. Mae prentisiaid yn cael lleiafswm cyflog cenedlaethol. Felly, yn ogystal ag ennill sgiliau, profiad a chymwysterau, byddwch chi'n ennill cyflog da hefyd.

4 Dod yn annibynnol. Trwy ennill arian, a dechrau ym myd gwaith, gallwch ddod yn fwy annibynnol a hunangynhaliol.


1 Get a head start in a field you want to work in. As an apprentice you can train in a field you want to work in. You won't be turned down due to a lack of experience; instead you can grow your career from day one.

2 Gain qualifications. As well as experience you'll gain recognised qualifications which match exactly what your employer wants. These will benefit your career in the short and long term.

3 Earn a wage. There is a national minimum wage for apprentices. So as well as gaining skills, experience and qualifications you'll be earning a wage too.

4 Become independent. Earning money and starting in the world of work can help you become a more independent and self-reliant person.

Emily Owen
Nyrs Ddeintyddol
Dental Nurse



Matthew Edwards

Cigydd
Butcher



5 Gallwch ddod yn weithiwr rheolaidd, gan dderbyn gwyliau cyflogedig ac weithiau seibiant i astudio. Byddwch chi'n weithiwr i'r busnes yn ystod eich Prentisiaeth a chewch eich trin fel gweithiwr cyflogedig. Gallwch fwynhau manteision nad ydynt ar gael trwy gynlluniau profiad gwaith.

6 Gweithio gyda chydweithwyr profiadol. Bydd eich cydweithwyr yn brofiadol a llwyddiannus yn eu maes a gallwch ddysgu ganddyn nhw yn ogystal â'r hyfforddiant y byddwch yn ei dderbyn.

5 Become a valued employee, receive holiday pay and in some cases, study leave. From day one you will enjoy many of the perks that come from being employed.

6 Work with experienced colleagues. Your colleagues will be experienced and successful in their field so you can learn from them as well as from the training you'll receive.

7 Rhowch gynnig ar rywbeth cwbl newydd. Nid dim ond mewn swyddi traddodiadol fel adeiladu a pheirianneg mae Prentisiaethau ar gael. Gyda thros 120 o wahanol swyddi, gallwch roi cynnig ar rywbeth rydych chi wedi'i hoffi erioed neu rywbeth na fydddech erioed wedi meddwl am ei wneud cynt.

8 Cael profiad o'r byd waith. Allwch chi ddim deall y byd gwaith go iawn tan y byddwch yn rhan ohono. Gyda Phrentisiaeth byddwch chi'n cael profiad o fod yn berson sy'n gweithio a byddwch yn dysgu rheoli'ch amser yn briodol.

9 Cael profiad ar gyfer eich CV. Bydd Prentisiaeth yn edrych yn dda ar eich CV. Mae'n dangos bod gennych chi brofiad, sgiliau priodol a'ch bod yn barod i weithio.

10 Gwella eich cyflogadwyedd. Bydd y profiad, y cymwysterau a'r sgiliau y byddwch yn eu cael o Brentisiaeth yn eich gwneud chi'n berson llawer mwy cyflogadwy. Byddwch chi'n teimlo'n fwy hyderus wrth fynd ati i chwilio am waith.

7 Try something completely new. It's not only traditional trades like construction and engineering we offer Apprenticeships in. With over 120 different roles, you can try something you've always fancied or something you'd have never thought of before.

8 Gain insights into the world of work. It's difficult to imagine the world of work until you're in it. As an apprentice, you'll experience life as an employee in the workplace, picking up lots of skills along the way.

9 Gain experience for your CV. An Apprenticeship will look great on your CV. It shows you have experience, appropriate skills and a willingness to work.

10 Increase your employability. An Apprenticeship will help you build your confidence and you will get job specific skills that will make you more employable.

Dylan Jones
Technegydd Tyrbin Gwynt
Wind Turbine Technician



I gael rhagor o wybodaeth a gweld y swyddi gwag presennol ewch i careerswales.com/cy a chwiliwch am Prentisiaethau, neu ffoniwch **0800 028 4844**. I gael negeseuon gwib dilynwch ni ar [Facebook](#) a [Twitter](#).

For more information and to view current vacancies search Apprenticeships on careerswales.com or call **0800 028 4844** and for instant alerts follow us on [Facebook](#) and [Twitter](#).